# Cofnodion

## Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Iau, 15 Tachwedd 2018 |
| Amser: | 10.00 am |
| Bresennol: | Cynghorwyr J Guy (Cadeirydd), M Al-Nuaimi, G Berry, C Ferris, M Spencer and K Thomas<br><br>Lisa Davies (Swyddog Llywodraethu), Liz Blayney (Rheolwr Craffu a Llywodraethu), Neil Barnett (Swyddog Llywodraethu), Rhys Cornwall (Strategic Director - Transformation and Corporate Centre) and Tracy McKim (Head of People, Policy and Transformation) |
| Yn bresennol: | |
| Ymddiheuriadau: | Cynghorwyr C Evans, M Evans and L Lacey |

---

1 **Datganiadau o Fuddiant**

Datganodd y Cynghorydd Kate Thomas ddiddordeb yn eitem 3, Adolygiad Ymwneud Cyhoeddus, fel gweithiwr i GAVO.

2 **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi 2018**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20/09/2018 fel rhai cywir.

3 **Adolygiad o Ymgysylltu â'r Cyhoedd**

Yn bresennol:

- Rhys Cornwall – Pennaeth Pobl a Newid Busnes
- Tracey McKim – Rheolwr Polisi Partneriaeth ac Ymwneud

Cyflwynodd y Pennaeth Pobl a Newid drosolwg cryno i'r Pwyllgor, ac amlygodd y meysydd allweddol i'w hystyried.
Gofynnodd yr Aelodau y canlynol:

- Gofynnodd yr Aelodau am yr agwedd tymor byr a hir at Ymwneud Cyhoeddus, gan bwysleisio'r angen i fod yn rhagweithiol yn hytrach nag adweithio fel Cyngor. Esboniodd y Swyddog fod dadansoddiad SWOT wedi ei gynnal gyda grwpiau y tu allan i'r Cyngor a chyda rhanddeiliaid i ganfod pa gyfleusterau oedd gan Gasnewydd ar hyn o bryd. Gallai dulliau eraill o ymwneud fod yn annibynadwy, ond serch hynny, yr oedd gan Gasnewydd Bus WIFI oedd yn cyrraedd tua 8000 o ddinasyddion, a bu arolwg ar-lein. Yr oedd yn rhaid i'r Awdurdod fod yn fwy craff gyda'r cwestiynau oed dyn cael eu gofyn er mwyn gwneud yn siŵr nad oedd yn gorgyffwrdd a'r hyn oedd yn cael ei ofyn, a bod y data a gasglwyd yn cael ei ddefnyddio yn effeithiol a'i ail-ddefnyddio at ddibenion priodol. Yr oedd y

dyletswyddau statudol ar gyrff cyhoeddus dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (DLICD) yn golygu bod rheidrwydd statudol bellach i weithio yn unol â'r 5 ffordd o weithio o fewn y Ddeddf, gan gynnwys dwyn dinasyddion i mewn i wneud penderfyniadau. Yr oedd yr ansicrwydd ynghylch y Gyllideb a Brexit yn cael effaith ar allu'r Cyngor i wneud hyn ac yr oedd yn creu rhwystrau i'r Awdurdod.

- Trafodwyd cylch y Gyllideb Flynyddol, ac ategodd yr Aelodau eu sylwadau blaenorol fod angen i'r broses ddechrau'n gynnar fel bod modd ymgynghori yn ystyrlon ar y gyllideb. Sylwodd y Swyddogion fod amserlenni proses y gyllideb yn cael eu gosod gan y Cynulliad Cenedlaethol pan fyddant yn rhyddhau'r setliad, a bod datblygu ac ymwneud â chynigion y gyllideb yn fater i'r Cabinet benderfynu.

- Pan ofynnwyd am ddulliau ymwneud, esboniodd y Swyddog fod gan yr Awdurdod ar hyn o bryd Grŵp Ymwneud oedd wedi hen sefydlu ac a oedd yn cynnwys yr Heddlu, Iechyd a Thai, a'u bod yn aml yn gallu cydweithio gyda mudiadau eraill fel Cartrefi Dinas Casnewydd, gan dderbyn adborth a barn gan drigolion, ond fod angen mwy o waith at y dyfodol i rannu gwybodaeth.

- Trafododd yr Aelodau sut i dargedu grwpiau anodd i'w cyrraedd, yn enwedig er mwyn adlewyrchu cymuned amrywiol Casnewydd, a beth oedd yr awdurdod yn wneud i wella hyn a rhoi grym i ddinasyddion o ran gwneud penderfyniadau. Atebodd y Swyddogion gan esbonio'r ffyrdd yr oedd yr Awdurdod yn grymuso dinasyddion Casnewydd:- Arolygon Arlein, Panel Dinasyddion, Digwyddiadau, Cyfarfodydd Ward, a Phanel Ieuenctid, lle mae pobl ifanc yn cynllunio 100% o'r prosiect. Esiampl o hyn oedd Rhodfa St Pauls.

- Trafododd yr Aelodau arferion da am sut yr oedd y Cyngor yn sicrhau cysondeb yn y modd yr oedd yn ymwneud a'r cyhoedd. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y Cyngor wedi cynnig hyfforddiant am degwch i'r holl staff gan gynnwys yr uwch-reolwyr, a'u bod hefyd yn rhoi hyfforddiant ar oblygiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

- Dywedodd yr Aelodau fod y genhedlaeth iau yn cael ei harwain gan dechnoleg, a gofynnwyd a oedd angen gwelliannau yn y maes hwn i ddatblygu ymwneud â'r grŵp hwn. Esboniwyd y byddai defnyddio technoleg ddigidol fel dull o ymwneud yn cyrraedd ieuenctid y ddinas, a bod yr Awdurdod ar hyn o bryd yn defnyddio'r dulliau hynny, gan ddefnyddio WIFI ar fysus Casnewydd oedd ar hyn o bryd yn cyrraedd 8000 o ddinasyddion. Esboniodd y Swyddogion hefyd fod yr Awdurdod cyn hyn wedi defnyddio segmentu wrth ymgynghori ar raddfa fawr, fel gyda'r Cynllun Lles. Gallai'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol fod yn gadarnhaol ac yn negyddol, ac yr oedd yr Awdurdod yn dda gyda rhai agweddau o'r cyfryngau cymdeithasol, a bod angen gwelliant mewn meysydd eraill i gadw'n gyfoes a datblygu mewn meysydd twf.

- Gofynnodd yr Aelodau a fyddai modd cynnwys y gofyniad i adrodd ar ymwneud mewn cytundebau Lefel Gwasanaeth (CLG), gan ofyn a oedd Swyddogion Datblygu yn ardal Pilgwenlli yng Nghasnewydd yn mynd ati i ymwneud er mwyn cael barn pobl yr ardal honno. Esboniodd y Swyddog fod hyfforddiant wedi ei gynnal i atgoffa pobl o'r oblygiadau statudol dan DLICD. Yn y Cynllun Corfforaethol, yr oedd camau ar y gweill i ddatblygu Hwb Gwybodaeth Casnewydd; casglwyd gwybodaeth ar faterion fel Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a Throsedd. Yr oedd y wybodaeth yn cael ei gasglu gan y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol a'r data a gynhyrchwyd yn cael ei ddefnyddio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.

- Dywedodd yr Aelodau eu bod yn teimlo fod ymwneud wyneb yn wyneb â dinasyddion Casnewydd yn rhan bwysig iawn o ymwneud a'r cyhoedd, ac y byddai'n gwneud yn siwr y gellid ymwneud a phobl nad oedd yn ymateb yn dda i ffurflenni neu holiaduron. Y teimlad gyda holiaduron oedd nad oedd rhyngweithio yn digwydd, ac y gallai cwestiynau fod yn aneglur neu eu dehongli mewn ffyrdd gwahanol. Weithiau, nid oedd yr holl gwestiynau'n glir. Dywedodd y Swyddog nad oedd pobl ifanc yn wastad yn barod i ymwneud oni fyddent mewn grŵp, tra bod profiad o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb, er eu bod yn defnyddio llawer o adnoddau, yn ffordd dda o gael sgwrs fanylach ar bwnc. Yr oedd cost darparu ar gyfer ymwneud wyneb yn wyneb yn uchel, ac nid oedd cyllideb ar gyfer hyn. Mae cost cyflogi cwmni ymchwil farchnad tua 1k y dydd i wneud gwaith tebyg. Trafododd y Swyddogion ganlyniad defnyddio cwmni ymchwil farchnad o gymharu â defnyddio gweithwyr y Cyngor.

- Gofynnodd yr Aelodau beth fydd y gwahaniaethau arwyddocaol eleni wrth osod y gyllideb, gan y bydd angen i'r Awdurdod gydbwyso'n gyllideb, ond bydd gwneud hynny yn effeithio ar randdeiliaid. Esboniodd y Swyddogion mai'r system yw y bydd y Cabinet yn cytuno ar y cynigion i ymgynghori arnynt ym mis Rhagfyr, gyda'r cyfarfod ym mis Chwefror i adolygu canlyniadau'r ymgynghoriad a chytuno ar y gyllideb derfynol. Teimlai'r Aelodau nad oedd hyn yn foddhaol gan nad oed dyn rhoi digon o amser i ymwneud â'r cyhoedd. Esboniodd y Swyddog fod pob awdurdod lleol yn gweithio o fewn amser y setliad gan Lywodraeth Cymru, ac nad oedd newid y broses hon i ryddhau cynigion yn gynt o fewn rheolaeth y Cyngor. Byddai rhaglen o weithgareddau yn cael ei rhyddhau toc ar fater ymgynghori, a byddai mwy o ymgynghori nag yn y blynyddoedd blaenorol. Byddai hyn yn cynnwys ymwneud wyneb yn wyneb gan gynnwys cyfres o sesiynau, yn gyffredinol ynghylch blaenoriaethau'r gyllideb yn hytrach na chynigion unigol.

- Soniodd yr Aelodau a, gyflwyno taliadau parcio: a fyddai ymgynghori â'r sawl yr effeithiwr arnynt? Esboniodd y Swyddog y byddai'n rhaid ymwneud gan fod hyn yn ofyniad ar gyfer y cynnig. Byddai argymhellion yn mynd at y Pennaeth Strydwedd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am fod yn bresennol.
**Casgliad – Sylwadau i'r Cabinet**

Nododd y Pwyllgor yr adroddiad manwl a chynhwysfawr gan y Pennaeth Pobl a Newid, a'r cynnydd cadarnhaol tuag at well lefelau ac ansawdd ymwneud â'r cyhoedd gan y Cyngor.

Yn ystod y cyfarfod, crybwyllwyd yr hyfforddiant a roddwyd i weithwyr y Cyngor ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (5 ffordd o weithio), ac yng nghyswllt tegwch yng nghyd-destun Asesiad effaith Tegwch a Chydraddoldeb (AETCh). Cytunodd y Pwyllgor fod y sesiynau hyn yn hanfodol er mwyn lledaenu neges pwysigrwydd ymwneud â'r bobl iawn ar yr adeg iawn yn y ffordd iawn. Cytunodd y Pwyllgor y dylid cynnig y rhain yn rheolaidd i'r staff, ac y dylid eu hannog i fynychu.
Gofynnodd y Pwyllgor i'r Swyddog ymchwilio i weld a fyddai modd cynnwys gofyniad i adrodd ar ymwneud mewn Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda sefydliadau sy'n bartneriaid i hyrwyddo ac annog ymwneud â'r cyhoedd.

Cytunodd y Pwyllgor i anfon y cofnodion at y Cabinet fel crynodeb o'r materion a godwyd.

O ran Cynigion Blynyddol y Gyllideb, cytunodd y Pwyllgor i gyfleu wrth y Cabinet y sylw a wnaed yn ystod cyllideb llynedd y dylai'r ymgynghori a'r cyhoedd fod yn benodol am gynigion oedd yn cael eu hystyried a digwydd trwy gydol y flwyddyn, yn hytrach na'u cyfyngu i'r ymgynghoriad statudol yn y cyfnod Rhagfyr / Ionawr ar gynigion oedd eisoes wedi eu datblygu'n llawn. Trwy ganiatáu i gynnal yr ymgynghori trwy gydol y flwyddyn, gallai dinasyddion gyfrannu at bob cam o ddatblygu a gweithredu'r arbedion.

4 **Adroddiad Risg Gwybodaeth Blynyddol**

Yn bresennol:

- Rhys Cornwall – Pennaeth Pobl a Newid Busnes

4 Rhoddodd y Pennaeth Pobl a Newid Busnes drosolwg cryno i'r Pwyllgor ac amlygodd y meysydd allweddol i'w hystyried. Yr oedd hyn yn cynnwys cwblhau'r 6ed Adroddiad Blynyddol Gwybodaeth am Risgiau. Nid oedd yr adroddiad hwn yn ofyniad statudol, ond yr oedd yn arfer da o ran atebolrwydd i sicrhau bod gan yr Awdurdod sicrwydd am y data a'i fod yn cael ei reoli ledled yr Awdurdod.

Gofynnodd yr Aelodau y canlynol:

- Holodd yr Aelodau beth oedd yr Awdurdod yn wneud yn y tymor hir i gadw'n gyfoes â datblygiadau newydd a thueddiadau fyddai'n effeithio ar ddiogelwch gwybodaeth. Esboniodd y Swyddog fod y Ddeddf Diogelu Data Newydd yn dod i rym eleni. Mae'r Cyngor yn dal data sensitif iawn, ac yr oedd yr Awdurdod yn dal a rheoli'r data hwnnw yn effeithiol. Esboniodd y Swyddogion nad oedd y rheoliadau newydd yn wahanol iawn i'r hyn oedd yn bodoli eisoes a bod hyn yn unol â'r ffordd yr oedd y Cyngor yn gweithredu.

- Dywedodd yr Aelodau mai Casnewydd oedd yr Awdurdod cyntaf i roi cyfrifiaduron i'w Aelodau, ac yn fwy diweddar, cymerodd yr Aelodau ran mewn arolwg am ddefnyddio cyfrifiaduron tabled, a'u bod yn teimlo bod hyn yn gam cadarnhaol. Esboniodd y Swyddog gefndir hyn; yr oedd cynllun blaenorol yn caniatáu i Aelodau ddewis defnyddio eu dyfeisiadau eu hunain a defnyddio hyn gyda system y Cyngor. Fodd bynnag, ar y pryd, tybiwyd fod hyn yn risg i ddiogelwch, ac yr oedd y Cyngor ar hyn o bryd yn edrych ar ddewisiadau eraill, megis cyfrifiaduron tabled i'r Aelodau. Mantais hyn oedd fod y cyfrifiadur wedi ei gysylltu â rhwydwaith diogel, fod y data wedi'i amgryptio, ac y gellid ei ddileu petai'r ddyfais yn cael ei dwyn. Mantais arall oedd ei fod yn fwy cynaliadwy gan y byddai'n lleihau'r angen am gopïau papur. Nid oedd cost i brynu'r tabledi gan y cafwyd cyllid o gronfa technoleg oedd ar gael trwy ail-drafod contract, a chost fechan oedd i'r ddarpariaeth 4G.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am fod yn bresennol, ac am eu hadroddiad manwl a chynhwysfawr.
Atgoffwyd y Pwyllgor fod hyfforddiant ar ddiogelwch gwybodaeth yn cael ei ddarparu i Aelodau dros yr wythnosau nesaf, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am eu hoblygiadau dan Reoliadau Cyffredinol Diogelu Data. Anogir Aelodau i fynychu'r sesiwn, a bydd nodyn atgoffa yn cael ei anfon atynt.

**Casgliad**

Canmolodd y Pwyllgor y Swyddogion am adroddiad cynhwysfawr, ac am roi sicrwydd i'r Pwyllgor fod data yn cael ei reoli yn y Cyngor.

5 **Adroddiad Cynghorydd Craffu**

Yn bresennol:

- Elizabeth Blayney - Rheolwr Craffu a Llywodraethiant

**a) Cyfoesiad am y Blaen-Raglen Waith**

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Craffu'r Blaen-Raglen Waith, a hysbysu'r Pwyllgor am y pynciau oedd i'w trafod yn nau gyfarfod nesaf y pwyllgor:

**31 Ionawr 2019**, yr eitemau ar yr agenda;
 Drafft o gynigion y Gyllideb 2019/20

**7 Mawrth 2019**, yr eitem ar yr agenda;
 Adroddiad Diogelu Corfforaethol; 
Strategaeth Rheoli Perfformiad.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor, yn dilyn eu cais i wahodd yr Arweinydd pan geir yr argymhellion am fonitro'r Cynllun Corfforaethol, fod cyfarfod ychwanegol wedi ei drefnu ar gyfer **10am ar ddydd Iau 20 Rhagfyr**. Cadarnhaodd yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr y byddant yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

**b) Camau yn Codi**

Nododd y Pwyllgor y daflen weithredu a ddarparwyd o'r cyfarfod diwethaf, a gofyn am gyfoesiad am sut y byddid yn adrodd yn ôl am yr argymhellion i'r Pwyllgor ynghylch Adroddiad Swyddog Archwilio Cymru. Dywedodd y Rheolwr Craffu a Llywodraethiant y byddid yna drodd am sylwadau'r Pwyllgor fel rhan o'r cyfoesiad ar yr adroddiad Craffu blynyddol y flwyddyn nesaf.

**c) Adroddiadau Gwybodaeth**

Nid oedd adroddiadau gwybodaeth.

**d) Llythyron Craffu**

Nododd y Pwyllgor y llythyr a atodwyd gan yr Arweinydd mewn ymateb i sylwadau'r Pwyllgor. Dywedodd y Pwyllgor fod yr ymateb yn fuddiol, a'u bod yn croesawu'r agwedd newydd a gymerir gyda'r Llythyron Craffu i hwyluso adborth gan y Cabinet am sylwadau ac argymhellion y Pwyllgor Craffu.

Daeth y cyfarfod I ben am Time Not Specified